PROSIECT WICKED

ADRODDIAD CHWARTER BLWYDDYN, GORFFENNAF – MEDI '07

TIR COED

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton Foundation

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

1. Trosolwg o Weithgareddau Tir Coed:

1. Bu tîm Tir Coed yn cyfarfod yn fisol er mwyn trafod cynnydd a materion cysylltiedig dan arweiniad John Wilding, Ysgrifennydd y Cwmni.

2. Cadarnhawyd ariannu prosiect WICKED yn derfynol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystod mis Gorffennaf. Clustnodir nawdd CCGC fel a ganlyn:
2007/08 - £20,000
2008/09 - £20,000
2009/10 - £18,500
Yr unig anfantais yw i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ôl-dalu ei gymorthdaliadau bob chwarter blwyddyn, felly mae'r ffigyrau y bydd Tir Coed yn medru hawlio bob blwyddyn o Brosiect Wicked fel a ganlyn:
Blwyddyn 1 - £11,250
Blwyddyn 2 - £18,750
Blwyddyn 3 - £23,500
Hawliad Terfynol – Ni allwn hawlio'r £5,000 sydd dros ben cyn Ebrill 1af 2010.
Oherwydd yr ôl-dalu bydd diffyg ariannol Prosiect WICKED yn £4,350 yn ystod Blwyddyn 1. Yn ffodus mae gan Tir Coed beth arian wrth gefn er mwyn pontio'r diffyg hwn, ynghŷd â rhodd y Dulverton Trust o £2,000 tuag at Prosiect WICKED.

3. Mae Chris, Swyddog Gweinyddu Tir Coed, wedi bod yn creu bâs data o Ymddiriedolaethau Elusennol bychain y gallai Tir Coed geisio iddynt am gyllid craidd. Byddwn yn ymgeisio cyn gynted â phosib, o gofio'r diffyg uchod.

4. Bu Chris yn paratoi adroddiadau ariannol ar gyfer ein cyfarfodydd tîm.
Rydym yn mynd at wraidd tanwariant yr 2il chwarter gan drefnu gweithgareddau ychwanegol, yn enwedig ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn ran o Gynllun Mês. Mae yna 2 prif reswm am y tanwariant hwn:

a. Hyd heddiw, nid yw Gofalwyr Ifanc Sir Benfro wedi medru cymryd rhan yn y gweithgareddau oherwydd nad ariannwyd swyddi. Er hyn, rydym yn falch clywed i'r sefyllfa hon gael ei datrys a gobeithiwn y medrir gweithio gyda hwy yn y dyfodol agos.
b. Ym mhob sir bu costau deunyddiau ar gyfer Cynlluniau Mês a Gweithio'r Goedwig llawer yn llai na'r gyllideb ar eu cyfer. Rhoddwyd coed yn rhad ac am ddim, neu llawer yn is na phris y farchnad, gan lawer o'n cyrchfannau coedwigol.

5. Mynychodd John Wildig seminar Grantiau CCGC ar ran Tir Coed.

6. Mynychodd John Good seminar ar destun "Charity Reporting – latest Charity Commission developments" a drefnwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

7. Mynychodd Gwyneth hyfforddiant arholi mewnol y Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA). Esboniodd hwn y prosesau a dogfennu y bydd yn rhaid i Tir Coed ei gweithredu os ydym yn mynd i asesu ac addasu achrediadau RhCA ar gyfer pobl ifanc.

8. Fel rhan o gofrestru Tir Coed â'r Rhwydwaith Coleg Agored, mae'r ddwy Swyddog Prosiect wedi cyfarfod ag Arolygwr Safonau y RhCA. Mae nawr angen i'r prosiect ffocysu ar:

a. Adnabod unedau RhCA addas i'w darparu yn ystod 2il dymor Cynllun Coed Call ym mhob sir;
b. Creu fframwaith cyffredin ar gyfer pob Arweinydd Prosiect Coed Call (dylai hyn alluogi darpariaeth tryloyw a chytbwys o'r achrediadau).

2. Gweithgareddau yn yr Ail Chwarter wedi eu rhestru dan pob cynllun prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cynnydd yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun MÊS

(Gweithgareddau hamdden ar gyfer Gofalwyr Ifanc)

Cynhaliwyd gweithgareddau y cynllun hwn drwy'r haf. Ceisiodd Tir Coed gynnal gweithgaredd â gofalwyr Ifanc Sir Benfro yn ystod y chwarter, ond yn anffodus nid oedd yna ddigon o ddiddordeb ymysg y Gofalwyr Ifanc a bu'n rhaid peidio â chynnal y weithgaredd. Mae Gofalwyr Ifanc Sir Benfro wedi dod o hyd i'r gyllid yr oeddent yn brin ohono o'r diwedd, ond nawr mae'n bosib fod yna broblem nad ydyw eu hyswiriant yn ymestyn i weithgareddau 'risg uchel.' Bydd yn rhaid datrys y broblem hon cyn iddynt fedru cymryd rhan ar unrhyw weithgaredd WICKED.

Gofalwyr Ifanc Powys:

<u>Celf yn y Coed</u> – Cynhaliwyd 3 sesiwn yng Nghoed Tre'r Llai, ger Y Trallwng.
Dyddiau Sadwrn, Gorffennaf 7fed, 14eg & 28ain.
Arweiniwyd y weithgaredd gan Patrick Harrison a Naomi Ridge, y ddau yn aelodau o grŵp clwstwr Menter Addysg y Goedwig Sir Drefaldwyn. Mynychwyd y weithgaredd gan ofalwyr ifanc o ardaloedd y Drenewydd a'r Trallwng.

Dewisodd y gofalwyr ifanc safle ar gyfer creu gwersyll canolog, buont yn clirio'r ardal gwersyll, ynghŷd â chreu pwll tân a chysgodfan. Crëwyd caseg lifio ar gyfer hwyluso creu gwrthrychau mawrion/cerfluniau allan o ddeunyddiau a gasglwyd o'r coed. Dyma rhai o'r gwrthrychau/cerfluniau a grëwyd:

- Cerflun wedi ei ysbrydoli gan we pryf cop (yn cynnwys pryf cop enfawr);
- Seiloffon hongian;
- Arlun mawr o ddyn brigau;
- Gwahanol fathau o lochesau;
- Castell Tylwyth Teg;
- Mur o bren wedi ei wehyddu.

Er i 8 person ifanc fynychu'r sesiwn 1af, ni ddaeth un o'r rhain (roedd tipyn yn hyn na'r eraill) yn ôl. 11 oed oedd cyfartaledd oedran y 7 a oedd yn weddill.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y 7 cyfranogwr eitem â'u dwylo.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do – Recordiad Fideo o'r bobl ifanc yn disgrifio yr hyn maent wedi ei greu a'r dulliau a ddefnyddiwyd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn	Do, presenoldeb 90%	

bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	o'r cyfranogwyr ar gyfartaledd = 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 86% yn ymwybodol o un modd yr oedd coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd	6 allan o 7 o gyfranogwyr.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 71% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach	5 – hapusach 2 – yr un peth
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, 100% yn bwriadu mynychu mwy o weithgareddau coedwig	

<u>Adborth:</u>

Hoffterau – *"Pob dim"*
"helpu x a y i greu eu cuddfan,"
"creu fy mur,"
"clymu cortyn,"
"creu fy ngofod fy hunan efo Patrick, sef gwe troellog a phryf cop mawr,"
"coginio ar dan gwersyll."

Anhoffterau- *"Dim byd" (x 6),*
"colli malws melys ar fy hun."

Adborth o'r Hyfforddwyr:
"Roedd yna newid enfawr yn hyder y plant yn eu syniadau celfyddydol a'u gallu i wireddu eu syniadau. Dangoswyd talent annisgwyliadwy wrth chwarae'r seiloffonau. Gwnaethant oll helpu i gynnau tanau a choginio, cario offer a defnyddio offer â mwy o hyder. Daethant yn fwy rhydd a gwyllt, roedd hyn yn dda iawn ar gyfer y grŵp hyn."

Adborth o'r gweithiwr cynorthwyol:

"Daeth 100% yn fwy hyderus yn eu gallu i oresgyn problemau a gwneud pethau yn eu dulliau eu hunain... Roedd y pobl ifanc yn hapus iawn bod eu gwaith yn mynd i aros yn y goedwig. Roeddent yn falch o'r hyn yr oedden wedi gwneud ac yn hapus eu bod wedi gadael eu stamp ar y goedwig."

Cwrs deuddydd goroesi yn y Goedwig, Awst 6ed & 7fed, 2007.
Darparwyd y weithgaredd hon mewn partneriaeth â Swyddogion Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Fe'i cynhaliwyd mewn ardal o Goedwig Hafren sydd wedi ei ddatblygu yn safle gwylltir gan Leigh Denyer, Ceidwad Addysg Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Arweiniwyd y weithgaredd gan Hyfforddwyr o Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored Staylittle. Bu Leigh Denyer yn ddigon caredig i fynychu'r weithgaredd ac i arwain y bobl ifanc drwy sgiliau gwersylla.

Mynychwyd y weithgaredd hon gan aelodau iau (dan 14 mlwydd oed) Gofalwyr Ifanc Powys ynghŷd â Gweithiwr Gweithgareddau o Wasanaeth Gofalwyr Powys.
Hwn oedd y tro cyntaf i Ganolfan Awyr Agored Staylittle gynnal gweithgaredd preswyl yn y goedwig.
Cyflwynwyd y cwrs goroesi yn y goedwig yn "weithgaredd hamdden"; er hyn, dangosodd yr adborth o'r bobl ifanc a'r Gweithiwr Gweithgareddau bod y gweithgareddau yn rhy heriol a bod dull yr arweinwyr (yn enwedig yr arweinydd benywaidd) yn rhy gatrodedig a chaeth ar gyfer y grŵp hyn.
Rhannwyd y wybodaeth hyn â Rheolwr Canolfan Staylittle, mae wedi cytuno i ymgynghori gwell â'r defnyddwyr wrth gynllunio rhaglenni preswyl yn y dyfodol.

Bu'r bobl ifanc yn ceufadio ar draws i ran o Lyn Clywedog er mwyn cyrraedd y safle gwylltir. Cynhwyswyd y Canlyniadau Dysgu canlynol:

- Adeiladu cysgod/clymiadau;
- Coginio ar stofiau Trangia;
- Sgiliau Cyfathrebu;
- Asesu Risg.

Gwnaeth pob person ifanc greu a chysgu mewn llochesu wedi eu creu o goed y goedwig. Creodd rai o'r grŵp ffyn teithio, ac eraill morthwylion pren.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y 12 cyfranogwr eitem â'u dwylo eu hunain.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Doedd dim camera fideo ar gael ar gyfer y weithgaredd hon. Cymerwyd ffotograffau ar gyfer y weithgaredd hon.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, cyfartaledd presenoldeb ar gyfer 90% o'r cyfranogwyr	

	= 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, 92% o'r bobl ifanc wedi enwi o leiaf un math o goeden.	11 allan o 12
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, 92% o'r bobl ifanc wedi enwi o leiaf un math o anifail y goedwig.	11 allan o 12
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 58% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	7 allan o 12 cyfranogwr.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Naddo, dim ond 17% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach	2 – hapusach 3 – yr un peth 7 – llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Naddo, dim ond 33% eisiau mynychu mwy o weithgareddau coedwig.	4 – ie 3 – efallai 5 - na

<u>Adborth:</u>

Hoffterau –

"Tostio Malws Melys & gwneud morthwyl pren"
"Ceufadio,"
"Adeiladu cysgod,"
"BBQ"
Rwy'n hoffi fy morthwyl a'r malws melys"

Anhoffterau –

"Y pryfed, y prydau bwyd, amser gwely",
"Darganfod malwen yn fy ngwely, pacio, dadbacio, gwybed yn fy mwyta"
"Yr ymdaith ddall"
"Cwsg"
"Dim byd"
"Ni hoffais orfod gwneud ein tŷ ein hunain a chysgu ynddo"
"Ni hoffais y gwybed"
"Cerdded yn y tywyllwch yn y coed"
"Cario pethau"

Beth wnaethoch chi –

"Lloches ar gyfer y nos (heb gymorth),"
"Malws melys wedi'u rhostio,"
"Brecwast"
"Buais yn gwneud coctel 'mud paradise' a ffon dyddiadur"
"Buais yn gwneud morthwyl pren"

Adborth o'r Gweithiwr Gweithgareddau –

"Medrodd pobl ifanc a oedd yn ofni'r dwr geufadio
Medrodd pobl ifanc a oedd yn ofni'r tywyllwch ymdopi â'r goedwig yn y nos!
Pobl ifanc yn ofni cysgu yn eu llochesu – cysgont am beth o'r nos!
Cafodd y grŵp eithaf her yn y weithgaredd hon. Teimlaf y dylai fod mwy o hwyl a llai o her. Gallai rhai pobl ifanc gefnu ar yr Awyr Agored o ganlyniad!"

Gwaith Pren Irlas, 4 diwrnod, Awst 13, 14, 21 & 22ain.
Cynhaliwyd y weithgaredd hon yng Nghoed Cefn gan grŵp Ysgolion Coedwig Canolbarth Cymru.
Gofalwyr ifanc , dros 14 mlwydd oed, o ar hyd a lled Powys oedd yn y grŵp.
Bwriad y weithgaredd oedd i hybu'r bobl ifanc i gydweithio mewn tîm.
Adeiladodd y grŵp sticil a phont er mwyn cael mynediad i faes yr afon, gan ddefnyddio deunyddiau o'r goedlan a thechnegau gweithio coed irlas.
Dysgodd y cyfranogwyr:

- am nodweddion deunyddiau naturiol,
- sut i ddefnyddio offer, gan gynnwys y gyllell ddeugarn (drawknife), y gaseg lyfnu, yr haearn hollti, y fwyell law, cŷn, gordd, gafaelfach & llafn,
- sut i ddefnyddio llinell sialc a lefel er mwyn cael cywirdeb wrth weithio coed,
- am ddefnyddio pren hollt

Bu 6 person ifanc yn gyfrannog yn y gweithdai hyn.
Ni fedrodd 2 fod yn bresennol yn y gweithdy 1af.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, cyfrannodd y 6 person ifanc tuag at adeiladu'r sticil a'r bont.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Casglwyd tystiolaeth ffotograffig yn unig.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	Naddo, roedd gan 75% o'r cyfranogwyr bresenoldeb o 75%	Mynychodd 4 person ifanc 3 sesiwn allan o 4.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o	

	goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 83% yn ymwybodol o un modd y mae coedwigoedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	5 allan o 6 cyfranogwr.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Naddo, roedd dim ond 33% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach. Gwnaeth y 3 a oeddent yn teimlo yr un peth roddi'r marc uchaf i'w hunain ar ddechrau'r weithgaredd, felly nid oedd modd gwella arno.	2 – hapusach 3 – yr un peth 1 – llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 83% yn bwriadu mynychu mwy o weithgareddau coedwig	4 – ie 2 - efallai

<u>Adborth:</u>

Hoffterau –

"Cerdded yn y dwr a physgota"
"Bod yno"
"Gwneud cwch allan o frwyn"
"Bwydo'r tân"
"Popeth"

Anhoffterau –

"Y gyllell ddeugarn"
"Dim byd"(x 2)
"India Corn yn blasu o fwg"

Beth wnaethoch chi –

"Gwialen bysgota, cwch ac estyll"
"Sticil, pont, y cydrannau i greu'r rhain."

Adborth o'r Gweithiwr Cynorthwyol:

"Mwynhaodd y ddau berson ifanc a fu (i'r goedwig) o'r blaen yn fawr ac maent yn gobeithio cyfarfod ag Arweinwyr yr Ysgol Goedwig eto. Roedd un yn alluog iawn wrth weithio â phren, ac mae un yn cynllunio adeiladu rhywbeth allan o bren ar dir ger ei gartref."

"Roedd yna gynnydd amlwg yn hyder X yn ei allu i wneud pethau allan o bren. Roedd wedi tybied ei fod dim ond yn medru ei wneud oherwydd ei fod yn hawdd. Sylweddolodd wrth wylio eraill yn cael anawsterau ei fod yn medru ar sgil!"

"Tyfodd hyder un person ifanc, ag anabledd dysgu, yn ei allu i ddewis a dethol y math cywir o goed a chadw'r tân ynghyn – ef oedd yn rheoli'r tân!! Medrodd ef ac un person ifanc arall ymlacio a mwynhau chwarae'r offerynnau cerddorol a ennill hyder i adael i'w dull cerddorol unigol ddod i'r amlwg."

"Nid oedd y weithgaredd o adeiladu pont yn apelio at y grŵp cyfan ac er i bawb gyfrannu rhywfaint, teimlaf bod hyn wedi ymrannu'r grŵp a'u rhwystro rhag teimlo ymrwymiad fel grŵp cyfan."

Adborth o'r Hyfforddwr:

"Wedi'r deuddydd cyntaf gwellodd eu hysgogiad i gwblhau'r dasg. Dangosodd y cyfranogion gwir ddiddordeb mewn gweithgareddau ar gyfer y dyfodol yng Nghoed Cefn.
Yn awyddus i drefnu gweithgareddau ar gyfer y dyfodol wedi adnabod diddordebau a sgiliau unigolion."

<u>Cwrs Deuddydd Goroesi yn y Goedwig</u> – Medi 1af a'r 2il

Arweiniwyd y weithgaredd hon gan Mark Handford o Outlook Expeditions yng Nghoedwig y Myherin yng ngogledd-ddwyrain Ceredigion, trwy ganiatâd Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Treuliwyd y diwrnod cyntaf yn adeiladu llochesau er mwyn i'r bobl ifanc gysgu ynddynt dros nos. Buont yn cydweithio mewn timau i adeiladu'r llochesau; defnyddiodd rhai ohonynt tarpolinau tra fu eraill yn defnyddio canghennau coed pinwydd a rhedyn yn haenen i'w cysgodi rhag y tywydd – roedd pawb yn sych yn y bore!!
Bu'r bobl ifanc yn gyfrifol am dyllu pydew ar gyfer y tŷ bach ac hyd yn oed crefftio sgrîn oddi amgylch iddo.
Bu eraill yn paratoi'r pryd o fwyd – Pasta & Quorn Bolognese – o amgylch y tân.
Wedi clirio'r gwersyll ar fore'r ail ddiwrnod, ymrannodd y bobl ifanc i ddau dîm er mwyn adeiladu dull o groesi'r afon. Aethant am daith gerdded hir drwy'r coed hefyd. Bu'r gwybed yn broblem unwaith eto, ond, heblaw am hyn bu pawb yn mwynháu ac roedd yr adborth ar yr arweinwyr yn gadarnhaol iawn.
Bu 6 gofalwr ifanc o 15 i 19 mlwydd oed yn cymeryd rhan; ynghŷd â 2 aelod o staff benywaidd ac un Gweithiwr Cynorthwyol gwrywaidd.

NÔD	CYRHAEDDIANT	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, cymerwyd recordiad fideo. Cymerwyd ffotograffau yn ystod y weithgaredd hon hefyd.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	Do, cyfartaledd presenoldeb ar gyfer 90% o'r cyfranogwyr = 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn mynegi cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd 100% o'r bobl ifanc o leiaf un math o goeden.	5 allan o 6 cyfranogwr
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, enwodd 83% o'r bobl ifanc o leiaf un math o anifail y goedwig.	5 allan o 6 cyfranogwr
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 83% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na – 50% Roedd 2 cyfranogwr wedi rhoddi'r marc uchaf i'w hunain ar gychwyn y weithgaredd, felly nid oedd modd cael gwellhád.	3 - hapusach 2 – yr un peth 1 – llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 83% eisiau mynychu mwy o weithgareddau coedwig yn y dyfodol	5 – ydw 1 – nac ydw

Adborth:

Hoffterau - "Popeth"
"Gwneud cysgod" (x 3)
"Cysgu mewn cysgod"
"Gwneud llochesau epig"
"Adeiladu'r bont"

Anhoffterau - "Dim byd" (x 2)
"Gwneud pont"
"Dŵr (yr afon)"
"Bod yn oer a gwlyb, er na ddigwyddodd hyn lawer"
"Tynnu'r llochesau epig i lawr"

Beth wnaethoch chi –
"Cysgod allan o fwsogl a choed"
"Pont allan o bren"
"Roedd yn edrych fel tŷ Bilbo Bagins"
"Meddyliais bod gweithgaredd y goedwig yn brofiad llawn hwyl a wicked"
"Tân"

Adborth o'r Gweithwyr Cynorthwyol:

"Wrth dreulio amser gyda'u gilydd fel grŵp mae hyder y bobl ifanc wrth gyfleu barn a syniadau yn cynyddu. Bu cynnydd 'X' yn amlwg ac yn fuan iawn roedd yn aelod gweithredol o'r grŵp a bu'n weithredol iawn yn y sesiwn adeiladu pont."

"Teimlaf ein bod i gyd wedi cael teimlad o gyrhaeddiad o fedru goroesi!! Bydd pob aelod o'r grŵp yn cario hyn ynddynt ar ffurf hunan hyder."

"Roedd y goruchwylwyr yn medru cyfleu ymdeimlad o hyder yn naturiol & teimlaf bod eu cyfathrebu wedi ei anelu yn gywir ar gyfer y Bobl Ifanc, cydbwysedd dda o barch, hwyl a disgyblaeth."

Adborth o'r hyfforddwr:

"Hyderaf ddweud bod yna newid gadarnhaol yng nghyfranogiad, hyder a cydberthynas y grŵp yn ei gyfanrwydd. Rhoddwyd cyfraniadau da iawn gan 'A,B,C a D" drwy gydol y weithgaredd a credaf mae hwythau sydd wedi derbyn y canlyniadau mwyaf cadarnhaol o gymharu â gweddill y grŵp a oeddent yn gymeriadau mwy hyderus wrth ddysgu am y goedwig a'r pethau sydd yn creu'r amgylchfyd, ynghŷd â rhannu profiadau bywyd a'r sgiliau maent yn dwyn i'r grŵp cyfan; yn arwain at y gallu i ymaddasu, cymysgu, dysgu a rhannu yn hyderus mewn grŵp."

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Yn dilyn ymlaen o adroddiad chwarterol diwethaf WICKED, rydym wedi derbyn adborth ar sesiynau Ysgolion y Goedwig fel â ganlyn:

Sesiynau Ysgol y Goedwig yng Nghanolfan Ymwelwyr y Comisiwn Coedwigaeth, Bwlch Nant yr Arian.
Darparwyd y sesiynau hyn mewn partneriaeth â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.
Arweiniwyd y sesiynau gan Leigh Denyer (Ceidwad Addysg Comisiwn Coedwigaeth Cymru, fe'i cynorthwywyd gan Judith Bray (arweinwr cymwys Ysgol y Goedwig).
Mai 30ain, 31ain, Mehefin 1af, 16eg a'r 23ain
Fel dywedwyd eisoes, roedd y niferoedd yn fach iawn; er hyn, roedd y 2 Ofalwr ifanc a fynychodd yn frwd iawn ac wedi mwynháu'r profiad mas draw.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y bobl ifanc o leiaf un eitem â llaw.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Casglwyd tystiolaeth ffotograffig yn unig.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	Mynychodd y 2 gyfranogwr pob sesiwn.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Do, roedd pob cyfranogwr yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na, roedd y dda yn teimlo yr un peth.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd y ddau eisiau dilyn mwy o weithgareddau coedwig	

Adborth:

Hoffterau – *"Gwneud dalwyr breuddwydion"*
"Gwneud y lloches"

Anhoffterau – *"Y pryfed"*
"Dim byd"

Beth wnaethoch chi –
"Dalwyr breuddwydion"
"Lloches"
"Mwclysau"
"Mapiau sain"
"Chwiban"

Prosiect adeiladu 4 diwrnod – Mehefin 31ain, Awst 2il, 7fed & 9fed.

Darparwyd y prosiect hwn mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar eu hystâd yn Llannerchaeron.
Gweithiodd y gofalwyr ifanc fel tîm er mwyn adeiladu palisau o bren wedi'i blethu o amgylch adran o lyn yr ystâd, ynghŷd â chuddio tanc olew o olwg y cyhoedd.
Dysgwyd ac ymarferwyd technegau gweithio diogel. Wrth i'r cyfranogwyr ddefnyddio bilygau, llifiau tocio a thocwyr, rhoddwyd sylw manwl i'r bobl ifanc wrth iddynt ddefnyddio offer â'r gallu iddynt fod yn beryglus
Bu'r bobl ifanc yn cyflawni'r gwaith canlynol:

- Torrwyd gwiail o goed cyll gan ddefnyddio llifiau llaw,
- Tociwyd y gwiail gan ddefnyddio bilygau,
- Torrwyd pyst i'r hyd cywir a rhoddwyd main arnynt,
- Plethwyd y gwiail rhwng y pyst.

Bu 7 person ifanc, o 9 – 17 mlwydd oed yn cymeryd rhan.
Methodd 2 chwaer a mynychu'r sesiwn 1af oherwydd bod ganddynt ffrindiau yn ymweld â'u cartref, heblaw am hyn bu'r cofnod presenoldeb yn 100%.
Bu'r cyfranogwr 17 mlwydd oed yn dyblu fel ail weithiwr cynorthwyol, ac mae'n debyg iddi fwynhau'r profiad hwn.

Ynghŷd â'r weithgaredd adeiladu, bu'r bobl ifanc yn mwynháu'r rhyddid i fedru chwarae ar diroedd helaeth, ond diogel, yr ystâd.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, cyfrannodd y 7 person ifanc yn ran o'r tîm.	

Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Casglwyd tystiolaeth ffotograffig yn unig.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	71% o'r cyfranogion yn bresennol 100% o'r amser. 29% yn bresennol 75% o'r amser.	Mynychodd 5 ohonynt y 4 sesiwn, Mynychodd 2 ohonynt 3 sesiwn
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, enwodd pob person ifanc o leiaf n math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 86% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	6 allan o 7 cyfranogwr.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach	4 – hapusach 3 – yr un peth
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 86% eisiau canlyn mwy o weithgareddau coedwig	6 – ydw 1 - efallai

<u>Adborth:</u>

Hoffterau –

"Roedd popeth yn dda"
"Plethu palis o gwmpas boeler"
"Gwneud gwaywffyn"

Anhoffterau –

"Dim byd – roedd popeth yn wych"
"Gorfod defnyddio'r "lladdwr dynion" i ddyrnu'r pyst i'r ddaear"
"Hoffais bopeth"

Beth wnaethoch chi –

"Llawer o ffensys â phren"

"Defnyddio offer miniog"
"Gât"
"Adeiladais tee-pee o ddail a phren"

Adborth o'r Hyfforddwyr –

"Bu'r cyfranogion i gyd yn defnyddio'r offer yn ofalus a gwelwyd gwellhád cyflym yn eu sgiliau yn y 4 sesiwn. Roedd pawb yn canolbwyntio yn astud ac mae'n debyg iddynt fwynhau eu hamser gyda ni."

"Bu cynnydd gweladwy yn hunanhyder y bobl ifanc i ddarganfod eu galluoedd o ganlyniad i'w caniatáu i ddefnyddio offer wrth gasglu a defnyddio'r pren cyll yn y palis, roedd yna gynnydd hefyd yn eu diddordeb yng nghefn gwlad a'u hamgylchfyd gwaith."

<u>Cwrs Deuddydd Goroesi yn y Goedwig</u> – Awst 20fed & 21ain

Arweiniwyd y weithgaredd hon gan Mark Handford o Outlook Expeditions yng Nghoedwig y Myherin yng ngogledd-ddwyrain Ceredigion, trwy ganiatâd Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Treuliwyd y diwrnod cyntaf yn adeiladu llochesau er mwyn i'r bobl ifanc gysgu ynddynt dros nos. Buont yn cydweithio mewn timau i adeiladu 3 lloches; defnyddiodd rhai ohonynt tarpolinau tra fu eraill yn defnyddio canghennau coed pinwydd a rhedyn yn haenen i'w cysgodi rhag y tywydd – roedd pawb yn sych yn y bore!!
Bu'r bobl ifanc yn gyfrifol am dyllu pydew ar gyfer y tŷ bach ac hyd yn oed crefftio sgrîn oddi amgylch iddo.
Bu eraill yn paratoi'r pryd o fwyd – Pasta & Quorn Bolognese – o amgylch y tân.
Rhannwyd straeon ysbrydion o amgylch y tân i gloi'r noson.
Wedi clirio'r gwersyll ar fore'r ail ddiwrnod, ymrannodd y bobl ifanc i ddau dîm er mwyn adeiladu dull o groesi'r afon. Aethant am daith gerdded hir drwy'r coed hefyd. Bu'r gwybed yn broblem unwaith eto, ond, heblaw am hyn bu pawb yn mwynháu ac roedd yr adborth ar yr arweinwyr yn gadarnhaol iawn.

Bu 8 gofalwr ifanc o 11 i 17 mlwydd oed yn cyfrannu, ynghŷd â 2 aelod o staff.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, recordiwyd y weithgaredd ar fideo. Tynnwyd ffotograffau hefyd.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	Do, presenoldeb 90% o'r cyfranogion = 100%	

O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, 100% o'r bobl ifanc yn medru enwi o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, 87% o'r bobl ifanc wedi enwi o leiaf un math o anifail y goedwig.	7 allan o 8 o'r cyfranogion
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 75% yn gwybod bod coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	6 allan o 8 o'r cyfranogion.
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y prosiect	Naddo, arhosodd 6 o'r cyfranogion yr un peth – ond roeddent i gyd wedi rhoddi'r sgôr uchaf i'w hunain ar gychwyn y weithgaredd, felly nid oedd modd wella.	6 – yr un peth 2 – llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 75% eisiau canlyn mwy o weithgareddau coedwig.	6 – ydw 1 – efallai 1 – nac ydw

<u>Adborth:</u>

Hoffterau – *"Gwneud Llochesau"*
"Cysgu yn y goedwig"
"Coginio ar y tân"
"Mae gwneud pethau allan o bren yn hwyl"
"Cysgu er popeth"

Anhoffterau – *"Y gwybed"*
"Adeiladu'r bont"
"Gwybed"
"Ymadael"
"Straeon Ysbrydion"
"Dim byd"
"Pacio"

Beth wnaethoch chi –
"Adeiladodd fy ngrŵp pont gref ac adeiladais i a'm ffrind loches naturiol,"
"Llochesau, toiled, tân, pont"

“Esgynfeydd”
“Brechdanau bacwn”
“Pabell & pont & bwyd & ffrindiau”

Adborth o Ofalwyr Ifanc Ceredigion:
“Roedd y goroesi yn lwyddiant gwych, bu’r gofalwyr ifanc a fynychodd yn mwynháu gymaint nes iddynt ofyn “y tro nesaf i ni fynd, gallwn ni fynd am yn hirach?” Hoffem i gyd ddiolch i chwi am drefnu gweithgaredd mor ddifyr a heriol ac am y bwydydd ac ati i chwi ddarparu.
A wnewch chi gyfleu ein diolchiadau arbennig i Mark (yr Arweinwr) am ei holl waith caled wrth drosglwyddo ei amryw sgiliau i’r bobl ifanc? (Roeddent yn meddwl ei fod yn COOL)! Yn enwedig pan roedd yn adrodd straeon ysbrydion o amgylch y tân!
Cawsant lawer o fudd o’r profiad hwn, gan gynnwys gweithio yn rhan o dîm, adeiladu hyder unigolion, hunan barch ac mae staff wedi sylwi ar wellhad mewn ymddygiad. Fel a welwch ar y ffurflenni adborth cawsant llawer o fudd ar lefel bersonol. Yr unig beth negyddol am y profiad oedd y gwybed! Roeddent yn ddigon i yrru dyn o’i gof ar adegau er i chwi ei darparu ag ymlidydd pryfed.!
Unwaith eto, llawer o ddiolch a rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar am y weithgaredd nesaf.”

Adborth o’r Arweinwr:
“Roedd y gofalwyr ifanc yn sicr yn ymroddgar iawn yn ystod eu 2 ddiwrnod, a cawsant llawer o fudd ohonynt o ganlyniad, er iddynt orfod gweithio’n galed a choginio ayyb, cawsant ymdeimlad o gynnydd yn yr hyn yr oeddent wedi ei gyflawni oherwydd iddynt ei wneud dros eu hunain, naill-ai wrth adeiladu lloches effeithiol heb ddefnyddio tarpolin plastig neu ddechrau tân â dril bwa.”

Gofalwyr Ifanc Sir Gâr:

Cwrs 3 diwrnod Celf yn y Coed – gweithdy 2 ddiwrnod ar greu offerynnau cerddorol ar Fehefin 25ain & 26ain wedi ei arwain gan Dave Hoyle a Jamie Miller a gweithdy rap a recordio sain ar Awst 8fed dan arweiniad y bardd Martin Daws. Cynhaliwyd y ddau weithdy yng Nghoed Woodhouse ger Sain Clêr.

Roedd yr 8 gofalwr Ifanc o Sir Gâr rhwng 12 a 16 mlwydd oed. Dros y 2 ddiwrnod cyntaf gwnaethant 1 set o marimbas fel grŵp a drwm yr un. Defnyddiodd y bobl ifanc planau, llifiau a rhathellau ayyb er mwyn gwneud casys drymiau a defnyddiwyd sgiliau echddygol manwl i rhaffu’r crwyn ac elino’r fframiau. Nid oedd llawer yn y grŵp yn gyfarwydd iawn â defnyddio offer llaw, ac oherwydd hyn buont yn araf i gychwyn ar y diwrnod cyntaf, er hyn cyflymodd eu gwaith ar yr ail ddiwrnod wedi iddynt sylweddoli bod yr amser oedd yn weddill iddynt orffen eu drymiau yn gyfyng iawn. Cydweithiodd y grŵp yn dda, gan rannu offer ac amser y goruchwylwyr. Roedd yn bobl ifanc yn hapus â’u drymiau gorffenedig.

<u>Adborth o’r Hyfforddwr:</u>

"Roedd yn bleser i weithio gyda'r grŵp hwn. Roedd y disgyblion yn aeddfed a pharchus iawn ... ac fe gyfrannodd pob un ohonynt i ddeinameg y grŵp." (Dave Hoyle)

"Gweithdy gwych â chanlyniadau cadarnhâol iawn." (Jamie Miller)

Ar y trydydd diwrnod daeth y grŵp â'u drymiau i'r goedwig a chyfansoddi lurigau 'rap' yn cyfleu eu meddyliau am eu bywydau a'r amgylchfyd naturiol. Wedyn bu'r bobl ifanc yn gweithio ar gymysgu'r cerddoriaeth a'r lurigau i ddarn gwreiddiol o gerddoriaeth rap. Bu hunan hyder Martin yn ddylanwad da ar y grŵp, yn helpu iddynt ymlacio wrth ymdrin â'r weithgaredd.

Adborth o'r Hyfforddwr:

"Sesiwn da mewn lleoliad ardderchog gyda grŵp da. Diolch Tir Coed." (Martin Daws).

Adborth o'r Gweithiwr Cynorthwyol:

" Roedd y bobl ifanc i gyd wedi ymwneud â'r weithgaredd drwy gydol y dydd. Diwrnod llawn mwynhad ag iddo gynnyrch terfynol gwych."

O'r 8 cyfrannwr, mynychodd 4 person ifanc pob sesiwn, bu 2 person ifanc yn absennol am un diwrnod, bu un person ifanc dim ond yn mynychu am 1 diwrnod.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd 7 cyfranogwr eitem â llaw. (bu un cyfranogwr yn mynychu'r gweithdy rap yn unig)	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Doedd dim camera fideo ar gael ar gyfer y gweithdy hwn.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	Naddo, 50% o'r cyfranogwyr yn bresennol 100% o'r amser.	Mae colli un diwrnod allan o 3 yn tynnu'r presenoldeb lawr i 66.6%
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob cyfranogwr a fu'n cwblháu'r hunanasesiad rhan 2 o leiaf un math o goeden.	Nid oedd 2 o'r cyfranogwyr yn bresennol ar y diwrnod olaf felly ni wnaethant gwblhau eu ffurflenni.
Cyfranogwyr yn gwybod bod	Do, enwodd pob	Fel uchod

coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	cyfranogwr a fu'n cwblháu'r hunanasesiad rhan 2 o leiaf un math o anifail y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 83% o'r cyfranogwyr a fu'n cwblháu'r hunanasesiad rhan 2 yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Naddo, roedd dim ond 33% o'r bobl ifanc a fu'n cwblháu'r hunanasesiad rhan 2 yn teimlo'n hapusach	2 – hapusach 4 – yr un peth
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 100% o'r bobl ifanc a fu'n cwblháu'r hunanasesiad rhan 2 eisiau canlyn mwy o weithgareddau coedwig.	5 – ydw 2 - efallai

<u>Adborth:</u>

Hoffterau – "*Gorffen y drwm."*
"Popeth."
"Gwneud a chwarae'r miramba."

Anhoffterau - *"DIM BYD"*
"rhoi'r croen ar y drwm."

Beth wnaethoch chi? -
" Gwnes i ddrwm pren gwych"

Cwrs deuddydd Goroesi yn y Goedwig – Arweiniwyd y weithgaredd hon gan Andrew Price o Dryad Bushcraft ar y 1af a'r 2il o Awst yng Nghoed Cwm Penllegare, Gorseinon.

Roedd y grŵp o 9 gofalwr ifanc rhwng 8 a 12 mlwydd oed. Er i'r grŵp fod yn frwd iawn nid oedd y goruchwyliwr wedi hollol sylweddoli pa mor fach eu maint oedd rhai o'r bobl ifanc. Roedd Andrew wedi bwriadu i'r grŵp gario eu hoffer a'u bwyd am oddeutu 3 milltir ar draciau anwastad i'r safle gwersylla. Er iddynt wneud eu gorau glas ni fedrodd y bobl ifanc gario'r holl offer, felly roedd yn rhaid i'r staff cynorthwyol gymeryd baich y gwaith, dioddefodd rhai o boen cefn o ganlyniad i hyn. Erbyn i'r grŵp gyrraedd y safle gwersylla, roedd lefel eu brwdfrydedd yn isel iawn. Hefyd, nid oedd rhai o'r bobl ifanc yn hoffi'r bwyd a ddarparwyd gan y goruchwyliwr, felly aethant heb fwyd am y rhan fwyaf o'r diwrnod cyntaf. Bu rhai o'r bobl ifanc yn cael trafferth cysgu. Er gwaethaf y problemau hyn, unwaith i'r gwelyau crog eu rhoddi i fyny creodd pob person ifanc loches i'w hunain, gan ddysgu clymau, yna cynnau tân gan ddefnyddio technegau ffrithiant. Roedd y grŵp cyfan yn flinedig iawn erbyn yr ail ddiwrnod, ond medrodd Andrew ddangos rhai technegau olrhain anifeiliaid. Mynychodd ffotograffydd o'r Loteri y diwrnod cyntaf yn tynnu lluniau prydferth iawn.

Adborth o'r Gweithiwr Cynorthwyol:

" Bu'r bobl ifanc yn mwynhau'r profiad ar y cyfan, er yr amryw broblemau."

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y 9 cyfranogwr loches i'w hunain.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Doedd dim camera fideo ar gael ar gyfer y gweithdy hwn.	
90% o gyfranogwyr yn bresennol o leiaf 80% o'r amser.	Do, presenoldeb 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Naddo, dim ond 2 gyfranogwr wedi enwi o leiaf un math o goeden (22%)	Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn rhy flinedig ar yr ail ddiwrnod i gwblhau eu ffurflenni adborth
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Naddo, dim ond 3 cyfranogwr wedi enwi o leiaf un math o anifail y goedwig (33.3%).	Fel uchod

Mae cyfranogwyr yn ymwybodol o o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Naddo, dim ond 1 cyfranogwr oedd yn ymwybodol bod coetiroedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchfyd..	Fel uchod
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Naddo, dim ond 22% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach	2 – hapusach 2 – llai hapus 5 – yr un peth
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Naddo, dim ond 33% o'r bobl ifanc oedd eisiau canlyn mwy o weithgareddau coedwig	3 – ydw 1 – efallai 1 – nac ydw

Adborth:

Hoffterau – "*Cysgu a chwarae".*
"Aros yn y gwely crog"
"Chwarae cuddio"
"Popeth."

Anhoffterau - *"Mynd yn y mwd"*
"Cerdded"
"Selsig"
"Popeth"
"Dim byd"

Beth wnaethoch chi? –
"Llochesi a ffair"

Cwrs deuddydd Goroesi yn y Goedwig – Roedd y weithgaredd hon ar gyfer bobl ifanc o Sir Gaerfyrddin unwaith eto, ond ar gyfer rhai rhwng 12 a 18 mlwydd oed. Arweiniwyd y weithgaredd gan Andrew Price a Nicola Bowskill o Dryad Bushcraft ar y 22ain a'r 11ain o Awst yng Nghoed Penllegare, Gorseinon.

Ers y weithgaredd Goroesi diwethaf, roedd Gofalwyr Ifanc Sir Gâr wedi bod yn sgwrsio â Dryad Bushcraft er mwyn ceisio goresgyn y problemau a gafwyd gynt. O ganlyniad, cludwyd llawer o'r offer â cherbyd ar ffordd goedwig i fan cyfagos i'r safle gwersylla a dewiswyd bwydlen addas. Roedd 7 gofalwr ifanc yn y grŵp. Unwaith eto bu'r grŵp yn codi gwelyau crog a rhoddwyd gwers ar dulliau cynnu tân, bu un person ifanc yn grefftus iawn wrth wneud hyn. Ychydig yn hwyrach, tywysodd Andrew y grŵp ar daith gerdded, yn dangos iddynt perlysiau y goedwig ac yn sôn am eu defnyddiau meddygol a chogyddol. Wedi'r straeon ysbrydion, aeth y grŵp i gysgu'n dawel. Ar yr ail ddiwrnod, dangoswyd i'r grŵp sut mae defnyddio cyllell yn ddiogel, yna bu pob un yn creu peg yr un. Yn

ddiweddarach yr un diwrnod, aeth y bobl ifanc ati fel tîm i greu lloches ddeniadol iawn, roeddent yn falch iawn ohoni.

Adborth o'r Gweithiwr Cynorthwyol:

"Roedd y bobl ifanc i gyd wedi mwynhau'r sesiynau hyn, ac maent wedi dweud yr hoffent ei brofi eto. Bu Andrew a Nicola yn gweithio'n dda iawn gyda'r bobl ifanc."

Adborth o'r Hyfforddwr:- *"Roedd yna newid enfawr yn eu hyder (dros gyfnod y weithgaredd) ac ymddangosodd eu bod i gyd yn teimlo'n gartrefol yn y coed, bu rhai yn gofyn am aros allan am noswaith arall."* (Andrew Price)

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd pob cyfranogwr peg a lloches.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do – Recordiad fideo o'r bobl ifanc yn disgrifio'r hyn a wnaethant yn y weithgaredd a'u teimladau am y weithgaredd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, presenoldeb 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd pob cyfranogwr o leiaf un math o goeden (22%)	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, enwodd pob cyfranogwr o leiaf un math o anifail y goedwig (33.3%).	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Do, roedd pob cyfranogwr yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd		

a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Naddo, roedd dim ond 14.2% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach	1 – hapusach 1 – llai hapus 5 – yr un peth
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, 85.7 o'r bobl ifanc eisiau canlyn mwy o weithgareddau coedwig	6 – ydw 1 – efallai

Adborth:

Hoffterau – *"Gwneud tân".*
"Adeiladu lloches"
"POPETH"
"Syrthio allan o'r gwely crog"

Anhoffterau-*"Cysgu"*
"Cerdded"
"DIM BYD"

Beth wnaethoch chi? -
"peg pabell gan ddefnyddio 3 techneg gwahanol."

Sesiynau Ysgol Goedwig 2 ddiwrnod – Cynlluniwyd y cyflwyniad hwn i Ysgolion Coedwig ar gyfer plant 8 – 12 mlwydd oed, fe'i arweiniwyd gan Arweinydd Ysgol Goedwig a Chynorthwy-ydd, Jo Steadman a Carl John. Cynhaliwyd y sesiynau ar safle Ysgol Goedwig ar dir Gerddi Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne.

Bu 7 gofalwr ifanc yn cyfranogi yn y sesiynau. Ar y diwrnod cyntaf chwaraeodd Jo gêm syml ac effeithiol gyda'r grŵp, lle'r oeddent yn chwilio am nifer o eitemau a guddiwyd yn y coed yn barod. Mwynhaodd pob cyfranogydd, gan gynnwys y Gweithwyr Cynorthwyol, y weithgaredd hon. Yna daeth amser gwneud clochfarrau gwynt a fframiau lluniau gan ddefnyddio offer llaw syml. Clowyd y dydd gan chwarae gêm adnabod coed. Ar yr ail ddiwrnod bu'r grŵp yn gwneud offerynnau cerddorol a gleiniau ac yn adeiladu cuddfan. Lleolwyd y sesiynau o amgylch tân canolog, roedd Jo yn eglur iawn wrth esbonio ymddygiad diogel o amgylch y tân. Coginiwyd malws malys ac India corn gan y bobl ifanc.

Adborth o'r gweithiwr cynorthwyol:

"Roedd y bobl ifanc yn dweud iddynt fwynhau y 2 ddiwrnod a byddent yn ei fwynhau yn y dyfodol eto."

Adborth o'r Hyfforddwr:

"Grŵp da o bobl ifanc a bu cynnydd amlwg yn eu cyfranogiad (dros gyfnod y gweithgareddau." (Carl John)

NÔD	CYRHAEDDIANT	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd pob cyfranogydd naill-ai peg pren, clochfar pren, ffrâm lluniau, gleiniau neu offerynnau cerddorol.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do – Recordiad fideo o'r bobl ifanc yn disgrifio'r hyn a wnaethant yn y weithgaredd a'u teimladau am y weithgaredd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, presenoldeb ar gyfartaledd – 87.5%	Dychwelodd pob un ar yr ail ddiwrnod a oedd yn bresennol ar y diwrnod cyntaf (6)
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, enwodd 6 allan o 7 cyfranogwr o leiaf un math o goeden (85.7%)	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, enwodd 6 allan o 7 cyfranogwr o leiaf un math o anifail y goedwig (85.7%)	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Do, 5 allan o 7 cyfranogwr yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd (71.4%)	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 71.4% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach	5 – hapusach 0 – llai hapus 2 – yr un peth
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, 71.4% o'r bobl ifanc eisiau canlyn mwy o weithgareddau coedwig	5 – ydw 2 – efallai

Adborth:

Hoffterau – *"Y clochfar gwynt".*
"Gwneud clochfarrau"
"popeth"
"Gwneud weithgareddau!"

Anhoffterau-*"Y glaw"*
"Yr India corn oedd wedi llosgi"
"dim byd"
"Bod ar dorri am y tŷ bach"

b) Cynllun GWEITHIO'R GOEDWIG
(ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 – 19 mlwydd oed sydd ddim ym myd addysg, gwaith nac hyfforddiant)

Er i sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig (rhan 1) ddechrau ym mis Mehefin, ni fanylwyd ar y sesiynau i gyd yn yr adroddiad chwarter blwyddyn diwethaf oherwydd bod rhai ohonynt ar eu hanner ac oherwydd prinder amser y staff. Oherwydd hyn, cynhwysir fanylion ar llawer o sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig yn yr adroddiad hwn. Gyda chymorth Tir Coed mae rhai o'r cyfranogwyr wedi gwirfoddoli ar raglenni amryw o fudiadau. Mae Tir Coed hefyd wedi gwneud cynnydd ar leoliadau gwaith ar gyfer rhai o'r bobl ifanc hyn.

Powys

Oherwydd diffyg ailgyfeiriadau, gohiriwyd dechrau Gweithio'r Goedwig ym Mhowys tan ddiwedd Mehefin. Ni chafwyd unrhyw ailgyfeiriadau gan Gyrfaoedd Cymru, felly bu Gwyneth yn cysylltu â'r ysgolion uwchradd yn uniongyrchol am ailgyfeiriadau addas. Ailgyfeiriwyd 2 person ifanc o Ysgol Uwchradd Llandrindod ynghŷd â 2 fachgen arall o Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt.

Er i'r nifer o gyfranogion fod yn fychan, bu eu brwdfrydedd yn ystod y sesiynau blasu yn galondid enfawr.
Rhoddodd un o'r cyfranogion wybod i'r Swyddog Prosiect ei fod yn disgwyl galwad i fynychu Gwersyll Recriwtio'r Fyddin ac o ganlyniad efallai na fyddai'n medru mynychu pob adran o'r cynllun. Yn anffodus, daeth yr alwad yn gynt na'r disgwyl ac o ganlyniad medrodd fynychu'r ddau sesiwn blasu cyntaf yn unig.

Cwrs deuddydd Gweithio Pren Irlas:
Cynhaliwyd y cwrs yng Nghoed Cefn dan arweiniad Naomi Ridge. Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r cyfranogion ar reoli coetiroedd wrth iddynt gasglu adnoddau. Trafodwyd defnyddio pren mewn modd cynaliadwy a rheoli coetiroedd er mwyn hybu beioamrywiaeth. Yn dilyn hyn gwnaethant forthwylion pren cyn gweithio mewn parau i gynhyrchu stôl o bren cyll gan ddefnyddio offer llaw mewn modd diogel. Aeth pob cyfranogwr â stôl adref.

Adborth:

Hoffterau - *"Gwneud morthwylion pren a stolion a cherdded drwy'r coed"*
"Roedd y staff yn gwrtais iawn a dysgais mwy am goed"
"Y creu"

Anhoffterau- *"Dim digon o amser yma oherwydd i mi fwynhau i'r eithaf a methu aros tan y tro nesaf."*
"Dim byd"

4-diwrnod Adeiladu yn y Gymuned:
Arweiniwyd a darparwyd y weithgaredd hon mewn partneriaeth â Choed Cadw ar 2 o'u safleoedd hwythau.

Adeiladwyd rhodfa bren dros darn o dir gwlyb ar lwybr troed yng Nghoed Dolifor, Cwm Elan, dan arweiniad Ralph Collard. Roedd y rhodfa yn rhyw 60 troedfedd o hyd x 2'6" o led ac yn cynnwys adrannau grisiog.

Bu'r grŵp yn cario offer ac adnoddau i'r safle am rhan gyntaf y diwrnod cyntaf, roedd hyn i fyny'r llechwedd mewn cae mawr. Dangosodd hyn iddynt faint o amser paratoi sydd angen ar rhai tasgau! Dysgodd y cyfranogwyr sut i osod ac adeiladu yr adrannau o'r rhodfa yn defnyddio gwahanol offer llaw. Ar ddiwedd y 3 diwrnod roeddent yn medru cofio'r mesuriadau a thechnegau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu a roeddent yn llawer mwy hyderus wrth gyflawni'r dasg.

Treuliwyd y 4ydd ddiwrnod yng nghoedlan Llawr y Glyn, ger Trefeglwys. Bwriad y weithgaredd oedd creu mainc pren garw er mwyn i'r cyhoedd fedru mwynháu'r golygfeydd godidog o'r cwm. Yn anffodus roedd y bobl ifanc dros awr yn hwyr yn cyrraedd y goedlan oherwydd i'r gyrrwr tacsi fethu â deall y cyfarwyddiadau i gyrraedd y gyrchfan. Oherwydd hyn, roedd amser braidd yn gyfyng, ond dysgodd y prentisiaid sut i wneud uniad mortais a thyno mawr mewn pren irlas. Cafwyd drafodaethau o SddGA (SSSIs) ac roeddent yn eiddgar i ddysgu mwy am gynefinoedd a mathau o blanhigion ac anifeiliaid ayyb.

<u>Adborth:</u>

Hoffterau - *"Mae hyn i gyd wedi bod yn brofiad gwych a byddaf yn ceisio datblygu arno ymhellach."*
"Gwnaethom risiau a mainc o goeden dderw i ni ei thorri i lawr ac mae wedi bod yn dda iawn."

Anhoffterau -*"Dim ond methu gorffen y fainc"*
"Ceisio gwneud mainc allan o dderw"

2 ddiwrnod Goroesi yn y Goedwig:
Arweiniwyd y weithgaredd hon gan Mark Handford o Outlook Expeditions yng Nghoedwig y Myherin yng ngogledd-ddwyrain Ceredigion, drwy ganiatâd Comisiwn Coedwigaeth Cymru.
Cyrhaeddodd y bechgyn i gyd â gwialenni pysgota (yn amlwg wedi ei gynllunio!). Gwnaethant weithio yn galed iawn i adeiladu lloches yr un gan obeithio ddal pysgod i'w swper gyda'r hwyr. Yn anffodus, oherwydd yr olion mwyngloddio hanesyddol yn yr ardal does dim pysgod yn yr afon bellach. Er mwyn gwneud y gore o'r sefyllfa hyn, dysgodd yr arweinydd rhai technegau hela a maglu i'r bechgyn.
Ar yr ail ddiwrnod llwyddodd y bechgyn gyflawni gweithgaredd croesi afon.

Adborth:

Hoffterau - *"Popeth, mwynheais adeiladu fy lloches a chysgu ynddo"*
"Gwneud y llochesi, y magal a'r trap sbring a chreu dull o groesi'r afon."
Anhoffterau-"Dim digon o amser i aros*" (x 3)*
"Y tywyllwch"

Hyfforddwr –"Bu'r grŵp bach o 3 yn cael amser arbennig o dda, gwych, roedd eu llochesi o'r radd uchaf yn eu hadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau naturiol yn unig a chan ddefnyddio gwreiddiau ar gyfer y clymiadau. Roeddent hyd yn oed wedi dod â gwialenni pysgota, er i hyn fod yn dwyll braidd!"

2 ddiwrnod Rheoli Coetiroedd:
Roeddem yn ffodus iawn i fedi defnyddio arbenigedd Chris Hughes, Canolfan Asesu Canolbarth Cymru a'r Gororau, wrth ddarparu'r elfen hwn o'r cwrs. Cafwyd 2 ddiwrnod gweithredol llawn gwybodaeth, roeddent o berthnasedd arbennig i 2 fachgen a oedd wedi dangos diddordeb cryf mewn gweithio fel ymgymerwyr gwaith coedwig.
Cafwyd sesiynau gweithredol a rhai yn y dosbarth. Dysgodd y prentisiaid am reoli risg a chanllawiau diogelwch.

Defnyddiwyd offer arbenigol gan gynnwys:
- Llif Hirgoes i docio a frigdorri Derwen 65 mlwydd oed;
- Llifiau Llaw i dorri coed hyd at 8 modfedd o drwch;
- Bachyn Chwynnu i glirio rhedyn a drysi o amgylch coed ifanc;
- Winsh Law er mwyn medru rheoli cyfeiriad cwymp y coed mwyaf.

Hefyd, arddangoswyd disgyn a thynnu allan coed gan ddefnyddio llif gadwyn, tractor & winsh, ynghŷd â defnyddio Prosesydd Coed Tân a Chylchlif Symudol. Dangosodd hyn pwysigrwydd cynyddu gwerth cynhyrchion o bren gwael, er mwyn creu gwell incwm i dalu am y gwaith.

Adborth:

Hoffterau - *"Winsio coed a dysgu technegau ymdrin coed"*
"Torri coed i lawr a defnyddio'r winsh"
"Dysgu sut i ddisgyn coeden"

Anhoffterau-*"Doedd dim digon o amser ac roedd amser cinio yn rhy hir"*

Adborth o'r Hyfforddwr –
"Bu'r prentis a arddangosodd y diddordeb lleiaf ar y diwrnod cyntaf yn cyfrannu yn well ar yr ail ddiwrnod gan gyflawni tasgau a osodwyd heb gwyno, er bod ei ddiddordeb oddi ar y dasg. Roedd ymddygiad pob un yn wych ac ymroddwyd yn dda i'r trafodaethau a'r gwaith ymarferol. Byddai'r prentis mwyaf brwd yn medru dechrau gweithio yn syth, ond dylai fod yn ymwybodol o'r angen am weithwyr sydd â'r gallu i gyflawni ystod eang o dasgau yn yr economi gyfoes."

2 ddiwrnod Gweithgynhyrchu Pren:
Arweiniwyd y weithgaredd hon gan Nigel Phillips o Goed Cymru yng Ngweithdy Tregynon. Tywyswyd y prentisiaid o amgylch y safle yn gyntaf a chafwyd darlith ar weithgareddau a rôl Coed Cymru.
Wedi hyn aethant ati i greu – bu dau prentis yn creu planwyr a chreodd y trydydd gwt ar gyfer ei ieir.
Bu'r prentisiaid yn:

- Mesur / Marcio allan;
- Rhoddi cydrannau at eu gilydd;
- Drilio – defnyddio offer pŵer;
- Gludo & sgriwio â thyrnsgriw drydanol;
- Defnyddio clampiau;
- Gorffen / llyfnu;
- Gwella'u hymwybyddiaeth o ganllawiau diogelwch.

<u>Adborth:</u>

Hoffterau – *"Popeth – oherwydd ei fod yn ymarferol"*
"Gwneud cwt ieir"

Anhoffterau-"*Dim byd, doedd byth digon o amser ond roedd yn wych"*

Ers i'r sesiynau cyflwyniadol ddirwyn i ben, mae'r 3 prentis wedi cymeryd rhan mewn rhaglen Adeiladu Sgiliau. Mae'r rhaglen 13 wythnos hwn a ddarperir drwy Gyrfaoedd Cymru ac Hyfforddiant Powys yn cynnwys lleoliad gwaith 30 awr yr wythnos, ynghŷd ag un diwrnod pob wythnos o wella sgiliau rhifedd a llythrennedd, fel bo'r angen. Mae'r prentisiaid yn derbyn £50 yr wythnos cyn belled eu bod yn cyflawni'r lleoliad gwaith 30 awr.

Prentis 1 – Hwn oedd y mwyaf brwd. Roedd ei bresenoldeb ar gyfer y sesiynau blasu yn 100% a roedd pob amser yn llawn brwdfrydedd am y gweithgareddau. Ar adegau byddai ei frwdfrydedd yn rhy frwd ac yna tueddai ruthro i ddechrau tasg yn hytrach na phwyllo a ystyried y dull orau o'i chyflawni.
"gwelodd x yr angen i bwyllo a pheidio â rhuthro i ddechrau, ac mae wedi deall manteision gwneud hyn, er iddo ei gael yn anos ei ymarfer yn aml. Mae ei allu i gydweithio ag eraill wedi cynyddu ac mae'n llai unigolyddol wrth gyflawni tasgau – yn arwain yn dda."
(Dafydd Morris-Jones, Gweithiwr Cynorthwyol)

Prentis 2 – roedd y prentis hwn ar begwn dirgroes i brentis 1. Mae'n llai byrlymog ac mae ganddo llai o brofiad wrth weithio â phren; ond mae'n dda iawn am wrando ar gyfarwyddiadau a'u trosi i greu gwaith gofalus a llawn meddwl. O ganlyniad, mae prentisiaid 1 & 2 yn cyd-ymateb a chydweithio yn dda.
Roedd ei bresenoldeb yn 92%, yn colli un allan o 12 sesiwn blasu yn unig.
"Tyfodd hyder y yn ei allu i afael a maestroli cysyniadau newydd. Roedd ei allu i reoli ymddygiad eraill yn y tîm yn ddefnyddiol." (Gweithiwr Cynorthwyol)

Mae prentisiaid 1 & 2 yn cyflawni eu lleoliadau gwaith Adeiladu Sgiliau gyda'r un ymgymerwr coedwigol, yn dysgu sut i reoli coed.
Mae Tir Coed wedi ariannu eu dillad gwarcheidiol, ac mae Hyfforddiant Powys yn ariannu cwrs hyfforddi Llif Gadwyn Sylfaenol ar eu cyfer. Mae'r Swyddog Prosiect hefyd yn gobeithio defnyddio hyfforddiant noddedig ychwanegol ar gyfer y 2 brentis dan gyllideb rhaglen "Hyfforddiant Sgiliau Gwledig" Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Prentis 3 – Nid oedd gan y prentis hwn llawer o hyder pan ymunodd â'r prosiect am y tro cyntaf, ond tyfodd hyn wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Roedd ei bresenoldeb yn 92%, yn colli un sesiwn oherwydd apwyntiad arall.
Bu'r gwaith rheoli coetiroedd braidd yn heriol iddo ac roedd yn well wrth gyflawni gwaith mwy manwl. Mwynhaodd greu ei gwt ieir ac roedd yn bles iawn ohono.
Mae Prentis 3 yn cyflawni lleoliad gwaith â chwmni asio yn Rhaeadr.

Roedd y swyddog prosiect yn falch iawn o glywed i fam Prentis 1 ymweld â phabell Cronfa Loteri Fawr yn Sioe Frenhinol Cymru a'u diolch am ariannu prosiect Wicked, oherwydd iddo roddi gymaint o gyfleoedd a phrofiadau i'w mab.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y 3 cyfranogwr o leiaf 3 eitem â llaw.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, recordiadau fideo o'r bobl ifanc yn disgrifio eu creadau a'r dulliau â ddefnyddiwyd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, presenoldeb **pob** cyfranogwr ar gyfartaledd oedd 94.5%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, medodd pob cyfranogwr enwi o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, medrodd pob cyfranogwr enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	

Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 100% yn ymwybodol o un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	66% yn teimlo'n hapusach (2 allan o 3 cyfranogwr).	Roedd y 3ydd cyfranogwr wedi rhoddi'r sgôr uchaf i'w hunan ar ddechrau'r sesiynau, felly nid oedd modd gwella ar hyn
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd gan pob un ddiddordeb mewn canlyn mwy o weithgareddau coedwig	
Sgiliau gwell yn arwain at gyfleoedd gwaith gwell i'r bobl ifanc:		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achredaeth	Dangosodd y 3 cyfranogwr ddiddordeb mewn achredaeth. Bydd 2 yn derbyn hyfforddiant achredol yn ystod eu lleoliadau gwaith	Bydd mwy o fanylder ar gynydd y targed hwn yn yr adroddiad nesaf
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygaeth gyrfa	Do, cyfartaledd presenoldeb **pob** cyfranogwr oedd 94.5%	

Ceredigion:

Cynhwyswyd adroddiad llawn o sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig yn Adroddiad Chwarter Blwyddyn Mawrth – Mehefin.
Mae yna ddiweddariad ar gynnydd yr 8 prentis isod:

Prentis 1 – Mae dan 15 mlwydd oed ac wedi ei wahardd o'r ysgol. Cynigiwyd lle iddo ar brosiect Coed Call, ond dewisodd gymeryd rhan mewn prosiect cwricwlaidd mwy eang a redir gan Gyngor Sir Gâr am 5 niwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Prentis 2 – yn dilyn cwrs arlwyo yng Ngholeg Llanelli.

Prentis 3 – Nid ydyw wedi achub ar unrhyw gyfle i wirfoddoli na gweithio.

Prentis 4 – yn dilyn cwrs Lefel 2 City & Guilds mewn gwneud dodrefn yng Ngholeg Ceredigion, Aberteifi

Prentis 5 – yn yr ysgol.

Prentis 6 – ar hyn o bryd yn gwirfoddoli yng Ngholeg Coppicewood Cilgerran, mae'r Coleg yn cynnig cwrs Diploma mewn gweithio Pren Irlas, sydd yn dechrau ym mis Hydref. Mae ei bresenoldeb ar ddiwrnodau gwirfoddoli wedi bod braidd yn ysbeidiol, ond credaf ei fod wedi sylweddoli yn ddiweddar bod yn rhaid iddo ddangos mwy o ymroddiad ar y diwrnodau hyn er mwyn ennill lle ar y cwrs Diploma yn yr Hydref. Mae yna glod o staff y Coleg am ei allu wrth ddefnyddio'r tyrn bolyn.

Prentis 7 – mae'n mynychu diwrnodau gwirfoddoli wythnosol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar ei gwarchodfa yng Nghors Caron. Mae hefyd ganddo ddiddordeb i gofrestru ar gwrs Diploma 6 mis ar weithio Pren Irlas gyda Coleg Coppicewood.

Prentis 8 - Nid ydyw wedi achub ar unrhyw gyfle i wirfoddoli na gweithio.

Sir Gâr:

Fel â fanylwyd yn yr adroddiad chwarter blwyddyn diwethaf, nid oedd Gweithio'r Goedwig Sir Gâr yn lwyddiant mawr, gyda ailgyfeiriadau isel a phresenoldeb anfynych. Beth bynnag, roedd gan y gweithdy diwethaf yn y sir, sef Adeiladu Cymunedol, rai deilliannau gwerth chweil.

Gweithdy 4 diwrnod Adeiladu yn y gymuned:
Oherwydd bod y gweithdy hwn yn barod i ddechrau, ond doedd dim cyfranogion o ddechrau'r rhaglen ar ôl, penderfynwyd iddo fynd yn ei flaen â 3 person ifanc 15 mlwydd oed o Uned Arbennig Penygroes. Creodd y 3 bachgen mainc o bren irlas dan oruchwyliaeth yr hyfforddwr Jamie Miller. Roedd pob cyfranogwr yn gyfarwydd â'r safle, Parc Coedwig Mynydd Mawr, oherwydd iddynt weithio yno o'r blaen ar dasgau rheoli cefn gwlad gyda'r warden, Dewi Wagstaff; bu hyn o ddeunydd oherwydd roedd y grŵp yn gyfarwydd â gweithio gyda'u gilydd. Ymatebodd y cyfranogion yn dda i'w cyflwyniad i offer gweithio pren irlas ac i'r gaseg lyfnu, bu dau fachgen yn enwedig yn treulio llawer o amser yn mwynháu gwneud pegiau pren gan ddefnyddio plaen crwm. Er mwyn paratoi i greu'r mainc, dangosodd Jamie i'r bechgyn sut oedd creu morthwylion pren a chesig llyfnu. Roeddem yn ffodus i gael Dewi wrth law i gynorthwyo, ynghŷd ag aelod o staff yr Uned. Cynorthwywyd y sesiynau gan Lucie Soper, gweithiwr ieuenctid a drefnwyd gan Tir Coed.

Yn dilyn y gweithdy hwn, bu Becky yn cyfarfod â'r cyfranogion, staff yr Uned a ffotograffydd o'r Camarthen Journal, roedd y bechgyn yn falch iawn o fedru ymddangos eu mainc ar gamera. Rhoddwyd y stori yn y Camarthen Journal ar Awst 1af, ac roeddem yn blês iawn o gael y dudalen flaen ar argraffiad Cwm Gwendraeth (isod). Yn ddiweddarach yr un diwrnod, ymwelodd Becky â'r uned yn Penygroes er mwyn trafod datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i'w bobl ifanc. Er brwdfrydedd y staff i weithio gyda Tir Coed yn y dyfodol, mae'r Uned yn mynd trwy nifer o newidiadau mawrion ar hyn o bryd. Mae'r Uned yn symud i ardal Llanelli dros yr haf, oherwydd nad ydyw'r adeilad presennol yn addas, ac roeddent yn ceisio recriwtio person newydd i'w arwain. Bydd Becky yn cadw cysylltiad ag aelodau o'r staff ac yn ceisio ymhél â'r disgyblion yn y dyfodol agos.

Creative kids' big project

VISITORS to Mynydd Mawr Woodland Park can now sit back and enjoy the natural environment, thanks to pupils from Cross Hands special unit.
The youngsters have spent several days building an oak bench for the community.
The workshop was set up by Tir Coed as part of the Big Lottery-funded Wicked project, which sets up woodland-related training and activities for young people in the Dyfed-Powys area.
Unit staff member Paul Emms said: "The boys have loved coming to the park, they really benefit from this type of outdoor, hands-on activity.
"These are the sort of young people who find it difficult to sit in a class all day and take in information. The best way for these pupils to learn is by doing and creating — and there's no better venue for it than this council-owned park."
The bench was made entirely out of locally grown green wood.
All joints were held together with wooden pegs, no nails required.
Tir Coed project officer Becky Hulme said: Charity.

"These types of traditional skills are just the ticket for these young people, enabling them to acquire new skills and to improve their employability."
More information about Tir Coed can be found at www.tircoed.org.uk

SITTING BACK: Pupils Matthew Ireson, James Fuentes and Wayne Williams from the Penygroes special unit have made a bench and placed it at Tumble wood. Pictured with them are staff members Paul Emms and Tony James, and Becky Hulme from Tir Coed Woodlands

Adborth o'r Bobl Ifanc:
Hoffterau- *"Gwneud y fainc dderw"*

Anhoffterau- *"Gweithio yn y glaw"*

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y 3 cyfranogwr forthwyl pren a chymeryd rhan mewn cynhyrchu caseg lyfnu a mainc bren	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do – recordiad fideo o'r bobl ifanc yn disgrifio yr hyn iddynt wneud, a'r dull o'i gynhyrchu.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, cyfartaledd presenoldeb **pob** cyfranogwr oedd 91.6%	Roedd gan 3 gyfranogwr bresenoldeb o 100%, collodd 1

		cyfranogwr 1 sesiwn (presenoldeb 75%) oherwydd iddo gamymddwyn ar y siwrne yn ôl i'r Uned
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Ni lenwyd ffurflenni hunanasesu gan y cyfranogwyr.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Fel uchod	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Fel uchod	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Ni lenwyd ffurflenni hunanasesu gan y cyfranogwyr.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Fel uchod	
Sgiliau gwell yn arwain at cyfleoedd gwaith gwell i'r bobl ifanc:		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achredaeth	Ni lenwyd ffurflenni hunanasesu gan y cyfranogwyr.	Bydd mwy o fanylder ar gynydd y targed hwn yn yr adroddiad nesaf
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygaeth gyrfa	Do, cyfartaledd presenoldeb **pob** cyfranogwr oedd 91.6%	
O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i hyfforddiant pellach neu chyflogaeth.	Ni lenwyd ffurflenni hunanasesu gan y cyfranogwyr.	Bydd mwy o fanylder ar gynydd y targed hwn yn yr adroddiad nesaf

Sir Benfro:

Bu 7 person ifanc yn ran o gynllun Gweithio'r Goedwig yn Sir Benfro. Roedd Gyrfaoedd Cymru yn galonogol iawn ac ailgyfeiriwyd 3 i'r cynllun drwyddynt hwy, ailgyfeiriwyd 2 berson ifanc gan fudiad hyfforddi ac un arall gan gymdeithas Gymunedol Mwnt; hunangyfeiriodd un cyfranogwr.
Roedd y gyfradd bresenoldeb yn dderbyniol iawn ar gyfer y 12 sesiwn cyflwyniadol. Yn anffodus, oherwydd y nifer isel o Ymgynghorwyr Personol, ni fedrodd Gyrfaoedd Cymru gynnig Gweithwyr Cynorthwyol i Dir Coed, felly recriwtiwyd 3 unigolyn i gefnogi Gweithio'r Goedwig yn Sir Benfro. Cefnogwyd y 12 sesiwn gan Dave Hoyle, athro o Ysgol Steiner Gorllewin Cymru a rhywun selog dros yr awyr agored, fe'i cynorthwywyd gan Sian Cornelius, ymarferydd Ysgol Goedwig a thiwtor goroesi a Jo Griffiths, Arweinydd Gwerin y Coed.

Rhain oedd y sesiynau cyflwyniadol:

1. **2 ddiwrnod Goroesi yn y Goedwig** – arweiniwyd hwn gan Andrew Price o Dryad Bushcraft yng Nghoed Canaston, coedlan a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yng nghanol Sir Benfro. Cyfrannodd 5 o brentisiaid Gweithio'r Goedwig, oherwydd nad oedd y ddwy ferch eisiau treulio noson yn y coed. Yn anffodus, oherwydd y tywydd sych, gofynnodd y CC i ni beidio a chynnau tanau. Ar y diwrnod cyntaf, cododd y grŵp eu gwelyau crog, tyllu'r pydew toiled a gwneud llochesi grŵp. Bu llawer yn mwynháu'r adeiladu llochesi yn enwedig, ond ni glosiodd y grŵp yn dda ar y chychwyn, ac yna roedd yna dueddiad iddynt ymrannu i ddwy garfan – awgrymodd yr hyfforddwr y byddai creu tân wedi hadael ychydig o'r gelyniaeth hyn ac wedi helpu i dynnu'r grŵp at ei gilydd. Treuliwyd diwrnod 2 yn chwilota am fwyd a cherfio llwyau pren gan ddefnyddio cyllyll. Yn anffodus roedd rhai unigolion (a oedd yn ystyried eu hunain yn 'arbenigwyr' wrth ddefnyddio cyllyll) yn gwrthwynebu i'r rheolau eglur a roddwyd gan Andrew ar ddefnydd a gofal cyllyll, felly daeth y weithgaredd i ben yn gynnar. Wrth edrych yn ôl, dylem wedi darparu'r weithgaredd hon tuag at ddiwedd y 12 sesiwn, yn wobr am ymddygiad a chyrhaeddiad da. Byddai unrhyw unigolion afreolus wedi eu hadnabod erbyn hynny, a byddai'r grŵp wedi cael mwy o amser i ddatblygu perthnasau a dealltwriaeth o wahaniaethau personol.

Adborth:

Hoffterau - *"Adeiladu'r lloches oherwydd nad oeddwn wedi gwneud unrhyw beth o'r fath ar y raddfa yna"*

Anhoffterau -*"Y tywydd oer yng nghanol y nos"*
"Pan oedd Andy yn bod yn 'control freak' ac yn mynd â'r offer oddi ar pawb fel na allem wneud unrhyw beth."

2. **2 ddiwrnod Gweithio Pren Irlas** – Cynhaliwyd y weithgaredd hon yng Nghoedlan Gymunedol Nant-y-Cwm, Llanycefn, Sir Benfro, a'i arwain gan aelod o'r grŵp cymunedol, Stefan Proszynski.
Mynychodd y 7 prentis y gweithdy hwn, 5 am y ddau sesiwn a 2 am un diwrnod. Bu'r grŵp yn ymglosio yn well, bu cyflwyniad y ddwy aelod benywaidd yn newid mawr i ddeinameg y grŵp, a felly er i'r bechgyn fod yn ymddwyn ar eu gorau, nid oeddent bob amser yn canolbwyntio ar y dasg. Cynhyrchodd pob cyfranogydd naill-ai stôl dair-coes neu fwrdd, ac roedd yn ymddangos iddynt fod yn hapus â'u cyrhaeddiad. Dangosodd y weithgaredd hon alluoedd yr unigolion, roedd gan un cyfranogydd yn enwedig, sydd â phroblemau ymddygiadol, allu rhyfeddol i ganolbwyntio ar y dasg dan sylw; roedd ei ganolbwyntio dim ond yn lleihau pan fyddai yna saib yn y weithgaredd. Bu rhai o'r cyfranogwyr hefyd yn gwneud bwa a saeth, ac fe'u treialwyd ar faes saethu a ddyfeisiwyd yn y fan a'r lle.

<u>Adborth o'r bobl ifanc:</u>
Hoffterau- *"Gwneud gordd – chillio allan"*
"Torri'r coed"
"Y pethau gwnes i"

Anhoffterau-*"Amh."*
"Dim!"
"Byrder y cwrs"

3. **2 ddiwrnod Rheoli Coetiroedd** – cynhaliwyd y weithgaredd hon yng Nghoedlan Gymunedol Nant-y-Cwm unwaith eto. Mynychodd 6 prentis, 3 am y ddau ddiwrnod, a 3 am 1 diwrnod. Arweiniwyd y gweithdy hwn gan Piers Ciapara, aelod arall o'r grŵp cymunedol. Dechreuodd y gweithdy drwy dywys y prentisiaid o amgylch y safle, gan esbonio systemau rheolaeth a chynefinoedd gwahanol, defnyddiodd y prentisiaid olwyn fesur er mwyn mesur hyd y terfynau allanol. Canolbwyntiodd gweddill y gweithdy ar greu llwybrau troed gan ddefnyddio byrddau cynhaliol a physt pren, esboniwyd y rheolau ynglŷn â defnyddio offer yn ddiogel. Gorffennwyd y grisiau ar yr ail ddiwrnod. Er i'r cyfranogwyr fwynhau y daith o amgylch y safle, nid oeddent yn canolbwyntio yn ddigonol wedi hyn ac o ganlyniad ni gynhaliwyd yr arddangosiad o dechnegau winsio llaw a gynlluniwyd ar eu cyfer, oherwydd i'r hyfforddwr deimlo y gallai'r diffyg canolbwyntio arwain at anafiadau. Parhaodd un cyfranogwr i ganolbwyntio yn dda; a bu gorffen y grisiau ar y cyfan o ganlyniad i'w waith ef. Diflasodd y cyfranogion â'r dasg dan sylw yn gyflym, gan ddangos mwu o ddiddordeb mewn gofalu am y tân a gwneud te na gweithio. Er diffyg ymroddiad gweddill y grŵp, roedd pawb yn synnu ei bod yn amser iddynt adael pan gyrhaeddodd y tacsi, gan ddweud eu bod wedi mwynháu eu hamser yn y coed.

<u>Adborth:</u>
Hoffterau - *"Mynd am dro"*
"Creu'r grisiau"
"Y canlyniad gorffenedig"
"dim!"

Anhoffterau-*"Pryfed"*
"Dim byd"

"Popeth"

4. **4 diwrnod Adeiladu y Gymuned** – cynhaliwyd y weithgaredd yng Nghoedlan Gymunedol Green Links, ger Ysgol Penfro. Arweiniwyd y gweithdy gan Adam Edwards, aelod staff Green Links. Bu'r 7 cyfranogydd yn gyfrifol am adeiladu teras gwylio, 2 ohonynt am y 4 diwrnod, 3 am 3 diwrnod, 1 am 2 ddiwrnod ac 1 am ddim ond 1 diwrnod. Pan gyrhaeddodd y grŵp i'r goedlan roedd peth o'r gwaith paratoadol wedi ei wneud, roedd y tyllau postion wedi eu tyllu ac roedd rhai pyst yn eu lle, ond adeiladwyd gweddill y teras gan y grŵp. Er fod yna peth gwrthdaro rhwng rhai o'r cyfranogion (bu hyn mwy na thebyg yn gyfrifol am bresenoldeb isel yr unigolion hyn) cydweithiodd gweddill y grŵp yn dda iawn, pob un yn cymeryd tro ar dasgau gwahanol a datrys problemau fel uned. Roedd y gwaith terfynol yn arbennig iawn ac mae'r teras nawr ar gael i'r grŵp ddefnyddio, mae Green Links hyd yn oed yn meddwl am ddefnyddio'r teras ar gyfer dosbarthiadau Ioga. Ar y diwrnod diwethaf cafodd y grŵp farbiciw haeddiannol ar eu cread. Ychydig wythnosau yn ddiweddarach, aeth Becky â rhai o'r cyfranogion yn ôl i'r safle ar gyfer iddynt gael cyfweliad a ffotograffau gan ohebydd o'r Western Telegraph. Ymddangosodd yr erthygl ar dudalen 28 o gyhoeddiad Gorffennaf 25ain . Un canlyniad positif o'r gweithdy hwn yw i Dave Hoyle, Gweithiwr Cynorthwyol Gweithio'r Goedwig, gael ei gyflogi gan Green Links yn hyfforddwr coedlan rhan-amser ar gyfer ei prosiectau hwythau

<u>Adborth:</u>
Hoffterau - *"Gweithio yn y goedwig"*
"Y Canlyniad"
"Creu'r teras"

Anhoffterau-*"Y diwedd"*
"Rhai pobl ddim yn gweithio"
"Dim byd"

5. **2 ddiwrnod Gweithgynhyrchu a Phrosesu pren** – cynhaliwyd y gweithdy hwn yng ngweithdy coed Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yng Nghilrhedyn ger Abergwaun, gan gynnwys 4 aelod o staff Cilrhedyn. Mynychodd 6 person ifanc y gweithdy hwn, 1 am 1 diwrnod a 5 am y 2 ddiwrnod. Ar y diwrnod cyntaf bu'r bobl ifanc yn creu planwyr allan o bren irlas. Er i bob person ifanc greu planwr i fynd adref â hwy, gorffennodd rhai ohonynt y gwaith yn gynnar yn y diwrnod; felly diflasodd rhai o'r bobl ifanc a buont yn difrodi gwaith aelodau staff mewn swyddfa gerllaw, ond cafwyd rheolaeth ar hyn yn fuan iawn. Ar yr ail ddiwrnod, bu staff Cilrhedyn yn ailasesu eu dulliau a profodd y bobl ifanc ddiwrnod 'arferol' yn y gweithdy. Bu dau fachgen yn bwydo pren i beiriant prosesu, bu eraill yn gwneud arwyddion gan ddefnyddio cafnwyr a cynhyrchodd un bachgen gât bren o safon. Gweithiodd y staff ar gymhareb o 1 i 1 neu 1 i 2 a defnyddiwyd ystod eang o offer,

roedd hyder y bobl ifanc wrth ddefnyddio offer yn amlwg erbyn y cyfnod hwn yn y rhaglen.

Adborth:
Hoffterau - *"Popeth"*
"Gwneud arwyddion allan o bren"
"Gwneud arwyddion"

Anhoffterau-*"Y gweithio fel caethweision"*
"Dim byd o gwbl"
"Dim byd"

Ers i'r sesiynau cyflwyniadol ddod i ben, mae rhai o'r cyfranogion wedi symud ymlaen i rhannau 1 a 2 o'r rhaglen. Mae crynodeb byr o bob cyfranogydd yn dilyn:

1. Cyfeiriwyd y cyfranogydd hyn i'r rhaglen gan Gyrfaoedd Cymru, ei rheswm am ymuno oedd er mwyn "cael rhywbeth i'w wneud". Roedd lefelau hyder Xxx yn ymddangos yn isel iawn pan ymunodd â'r sesiynau cyflwyniadol, roedd yn benisel a ni chyfathrebodd llawer gyda gweddill y grŵp. Dywedodd y Gweithiwr Cynorthwyol: *"roedd hyder xxx wrth ddefnyddio offer yn isel iawn ar ddechrau'r cwrs. Mae hi wedi dysgu wrth ymroi i'r dasg â mwy o frwdfrydedd a ffocws ei bod yn medru goresgyn ei phryderon a'i ofn o dasgau ymarferol. Yn ystod adeiladu'r teras gwylio bu Xxx yn dangos ymroddiad rhagorol i dasgau â gofynion corfforol dwys, yn ennyn i weddill y grŵp gyfrannu yn y broses ... yn yr awyrgylch cywir mae Xxx yn gorlifo ag hunan hyder a balchder yn ei gwaith."* Roedd Xxx dim ond yn bresennol am 50% o'r cwrs, ond roedd gwrthdaro personoliaethol rhyngddi hithau a chyfranogydd arall yn bennaf gyfrifol am hyn. Dangosodd y cyfranogydd hyn beth diddordeb mewn gwirfoddoli, felly cysylltodd Becky â hi ynglŷn â phrosiect gwirfoddoli lleol, ond gwrthododd i gymeryd rhan. Dangosodd Xxx dymuniad gref i ymuno â'r Gwasanaeth Tân. Cysylltodd Becky â Gwasanaeth Tân Porth Penfro er mwyn darganfod os oedd yna unrhyw gyfleoedd ar gyfer Xxx. Yn anffodus roedd Xxx yn rhy hen i ymuno â'r Clwb Diffoddwyr Tân Ifanc, ond gobeithiwn y bydd y cyfranogwr yn ymgeisio am waith efo'r Frigâd pan ddaw cyfle yn y Gwanwyn. Gyrrodd Ymgynghorwr Personol Gyrfaoedd Cymru e-bost i Becky:

   "Rwyf yn blês iawn i mi ailgyfeirio Xxx i chwi a hoffwn ddiolch am y gwaith gwych yr ydych wedi cyflawni gyda hi ar Tir Coed ac wrth ei chynorthwyo i ddarganfod opsiynau a'r posibiliad o yrfa ar ei chyfer yn y dyfodol."

2. Ailgyfeiriwyd y cyfranogwr hwn drwy fudiad hyfforddi Future Works. Bu'n treulio'r flwyddyn wedi iddo ymadael â'r ysgol yn profi cyrsiau hyfforddi a phrofiadau gwaith heb llawer o foddhad. Roedd gan Xxx bresenoldeb 100%. Ysgrifennodd y Gweithiwr Cynorthwyol: "*Dechreuodd Xxx y cwrs yn ddyn ifanc tawel, yn ymddangos yn ddihyder ond hoffus. Yn raddol mae wedi arddangos priodweddau arweiniol, agwedd at waith oedd yn esiampl i eraill ac ymroddiad i'r tasgau a roddwyd, saernïaeth rhagorol a dibynadwyaeth sicr. Nid oes gennyf unrhyw bryderon wrth gymeradwyo Xxx... ar gyfer unrhyw leoliadau gwaith."* Cyflwynodd Becky Xxx i brosiect gwirfoddoli lleol, ond nid oedd y tasgau yn ei ysbrydoli, felly ni ddychwelodd. Mae Xxx newydd ddechrau Gwobr Sylfaenol Adeiladu mewn Gwaith Saer a Chreu Dodrefn. Mae yna opsiwn i fynd ar leoliad gwaith yn rhan o'r cwrs hwn. Wedi llawer o alwadau ffôn, llawer heb iddynt ddwyn ffrwyth, medrodd Becky gael lleoliad gwaith ar gyfer Xxx gyda busnes creu dodrefn lleol. Beth bynnag, ymwrthododd Xxx y cynnig, oherwydd ei fod wedi bod ar brofiad gwaith gyda'r cwmni yn y gorffennol, a bu disgwyl iddo ddim ond

gwneud tasgau gwasaidd. Mae Xxx yn bwriadu gorffen ei gwrs coleg NVQ heb leoliad gwaith.

3. Ailgyfeiriwyd y cyfranogwr hwn drwy Future Works hefyd. Roedd hwn yn gyfranogydd galluog iawn hefyd, er i'w bresenoldeb ddim ond fod yn 50%, mae Xxx "*wedi ymroi yn llawn i bob agwedd o'r cwrs. Mae wedi achub ar bob cyfle i ddysgu sgiliau newydd ... ac mae ei sgiliau o greu yn fyrfyfyr wedi cynyddu yn ddirfawr, yn datrys problemau adeiladol ac yn creu darnau saernïol ei hunan."* (Dave Hoyle) Cyflwynwyd y cyfranogwr hyn i'r un prosiect gwirfoddoli â phrentis 2. Mae Xxx newydd ddechrau hyfforddiant gyda Prentisiaid y Fyddin. Anfonwn pob dymuniad da iddo.

4. Roedd y cyfranogydd hon yn ailgyfeiriad arall o Yrfaoedd Cymru. Er bod ganddi agwedd difater drwy gydol y sesiynau cyflwyniadol, gallodd gael bresenoldeb o 71%. Mae'n debyg i Xxx fod yn falch o'i chyrhaeddiad yn y sesiynau. "*Mae hi wedi parhau i ffocysu fwyfwy ar ei gwaith ac wedi mwynháu ffrwyth ei ymroddiad"* (Dave Hoyle). Xxx oedd yr unig gyfranogydd nad oedd eisiau gweithio mewn gwaith coetirol neu wirfoddoli, mae hi'n frwd dros fynd ar brentisiaeth cogyddio ac yn aros i gael tŷ newydd yn agos i'r cwrs o'i dewis.

5. Roedd y cyfranogwr hwn yn heriol iawn ar ddechrau'r rhaglen. Fe'i ailgyfeiriwyd i Weithio'r Goedwig gan Gymdeithas Gymunedol Mwnt gan ei fod wedi ymwneud â hwy. Roedd ei ysgol wedi cyfleu yr anawsterau a gafwyd wrth ymddelio a'r cyfranogwr hyn yn ei profiad hwy. Yn ystod y Goroesi yn y Goedwig, ymddangosodd nad oedd Xxx yn medru canolbwyntio wrth ddefnyddio cyllell, cynyddodd ei allu i ffocysu yn fawr wrth ddefnyddio offer yng nghyfnod y gweithgareddau, yn enwedig yn ystod adeiladu'r teras gwylio, pan fu ei gyfranogiad yn fawr. Roedd gan Xxx bresenoldeb o 92%, hyn yn dangos ei ymroddiad i'r cynllun. Ysgrifennodd y Gweithiwr Cynorthwyol: "*Mae Xxx yn gymeriad gwych, yn ymddangos llawer o botensial i fod yn chwaraewr tîm gwych. Efo'r amgylchedd a'r arweiniad cywir, byddai Xxx yn ased da mewn unrhyw brosiect sydd yn cynnig lleoliad gwaith."* Dechreuodd Xxx gwrs coleg ym mis Medi, ond nid oedd at ei fryd, ac mae wedi gadael ers hynny. Mae Becky yn edrych ar y posibiliad o gael lleoliad gwaith ar gyfer Xxx ar y foment.

6. Ailgyfeiriwyd y cyfranogwr hwn gan Gyrfaoedd Cymru hefyd. Ymddangosai hunanhyder Xxx yn isel iawn ar ddechrau'r cwrs, ac nid oedd yn medru ymroi yn effeithiol. Ond, bu cynnydd Xxx yn fawr, a medrodd ffocysu yn gynyddol, ysgrifennodd y Gweithiwr Cynorthwyol: "*Dros gyfnod y prosiect mae Xxx wedi ymddangos yn gynyddol hyderus, yn eiddgar i ddysgu ac yn ddyn ifanc gofalgar ... cwrs llwyddiannus i Xxx mewn amryw o ffyrdd."* Roedd ei bresenoldeb yn 75%, yn bennaf oherwydd cyfres o apwyntiadau. Yn ystod gweithdy Cilrhedyn, dangosodd Xxx ddiddordeb mewn lleoliad gwaith. Bu Becky yn sgwrsio â'r Ganolfan Coetiroedd, ac roeddent yn agored iawn i'r awgrym o leoliad gwaith gyda hwy, trefnwyd trafnidiaeth ar ei gyfer hefyd. Bu Becky mewn cyfarfod â Gyrfaoedd Cymru, ac roedd pawb yn gytun mae lleoliad gwaith yng Nghilrhedyn oedd un o'r opsiynau gorau ar gyfer Xxx. Trefnwyd y lleoliad gwaith rhwng Gyrfaoedd Cymru a'r mudiad hyfforddi PRP, sydd yn gweithredu rhaglen Adeiladu Sgiliau. Yn anffodus rydym wedi derbyn adborth i Xxx fethu 2 gyfweliad a'i ddyddiad cychwyn efo PRP; nid yw ei ymgynghorwr o Gyrfaoedd Cymru yn gwybod beth i'w gynnig iddo nesaf. Bydd Becky yn ceisio ymrafael a'r mater hyn yn y dyfodol agos.

7. Hunangyfeiriodd y cyfranogwr hwn i'r rhaglen. Er iddo fod yn 20 mlwydd oed, ac iddo gael ei wahardd o raglenni tebyg yn y gorffennol oherwydd ymddygiad anweddus, penderfynwyd derbyn Xxx i'r rhaglen, oherwydd ei frwdfrydedd amlwg. Mae Xxx yn

dioddef o ADHD ac nid ydyw wedi cael llawer o lwyddiant yn yr ysgol, nac ar gyrsiau iddo fynychu yn y gorffennol. Roedd ymddygiad Xxx yn heriol ar y cychwyn, i weddill y grŵp ac i'r Gweithwyr Cynorthwyol. Ond, unwaith i Xxx ddod i adnabod gweddill y grŵp a'r terfynau a osodwyd gan y Gweithwyr Cynorthwyol, bu ei ymddygiad yn llai o fwrn, bu ddim ond yn rhaid ei herio yn gymharol anaml wedi hyn. Roedd Xxx yn bresennol am 92% o'r cwrs, dim ond yn colli 1 allan o 12 diwrnod. Er bod Xxx yn ei chael yn anodd i ganolbwyntio ar y dasg dan sylw ar adegau, dangosodd allu syfrdanol i ffocysu ar dasg arbennig am gyfnod o amser cyfyngedig. Dywedodd y Gweithiwr Cynorthwyol: *" mae Xxx wedi dangos i bawb ei allu amlwg i ganolbwyntio ar dasgau sydd o ddiddordeb iddo."* Yn dilyn y sesiynau cyflwyniadol, cyflwynodd Becky Xxx i Goleg 'Coppice Wood' ger Cilgerran a'u rhaglen wirfoddol wythnosol. Ers hyn mae Xxx dim ond wedi colli un diwrnod gwirfoddoli, mae wedi cofrestru yn 'Wirfoddolwr y Mileniwm' efo Tir Coed (prosiect a ariennir gan CGGC) ac mae wedi cwblháu 60 awr o wirfoddoli hyd heddiw, mae ar y trywydd cywir i ennill ei Wobr 100 awr Gwirfoddolwr y Mileniwm. Mae Xxx ar ddechrau cwrs 6 mis RhCA efo Coleg Coppice Wood ym mis Hydref. E-bostiodd Bruce Slark, Cadeirydd Coppice Wood, Becky gan ddweud: "*Nodyn cyflym er mwyn gadael i chwi wybod ein bod yn blês iawn â chynnydd Xxx, ers ein sgwrs diwethaf, nid ydyw wedi colli yr un Dydd Mercher. Mae wedi dechrau ymuno gyda'r grŵp ac yn amlwg yn mwynháu ei hunan. Mae hefyd yn dangos blaengarwch yn ei waith, sydd yn galonogol iawn. Rydym yn ffyddiog y bydd yn fyfyriwr rhagorol ar y cwrs 6 mis."*

NÔD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Do, creodd y 7 cyfranogydd o leiaf 3 eitem â llaw.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, tystiolaeth ar fidio o'r bobl ifanc yn disgrifio'r hyn iddynt ei wneud, a'r dull o'i wneud.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Naddo, cyfradd **pob** cyfranogydd ar gyfartaledd oedd 75.7%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, medrodd pob cyfranogydd enwi o leiaf un math o goeden.	Gweithgaredd ar lafar wedi ei gofnodi gan y Gweithiwr Cynorthwyol
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, medrodd pob cyfranogydd enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Gweithgaredd ar lafar wedi ei gofnodi gan y Gweithiwr Cynorthwyol
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o	100% yn ymwybodol o un modd y mae	Gweithgaredd ar lafar wedi ei gofnodi

feunydd i'r amgylchfyd	coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	gan y Gweithiwr Cynorthwyol
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Dychwelwyd y ddwy rhan o'r ffurflen hunanasesiad gan un cyfranogwr yn unig, a rhoddodd sgôr llai i'w hunan ar ddiwedd y cwrs na'r cychwyn	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, 85.7% yn dangos diddordeb mewn canlyn mwy o weithgareddau mewn coedlannau	
Sgiliau gwell yn arwain at gyfleoedd gwaith gwell i'r bobl ifanc:		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achredaeth	4 allan o 7 cyfranogydd yn dangos diddordeb mewn achredaeth. Mae 2 wedi cychwyn ar gyrsiau coetirol achredadwy	Bydd mwy o fanylder ar gynydd y targed hwn yn yr adroddiad nesaf
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygaeth gyrfa	Do, presenoldeb **pob** cyfranogydd ar gyfartaledd oedd 75.7%	
O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i hyfforddiant pellach neu chyflogaeth.		

Gwersi a ddysgwyd:

- Amserlenni Goroesi yn y Goedwig tuag at ddiwedd y rhaglen blwyddyn nesaf, pan mae'r grŵp wedi ffurfio perthnasau, ei ddefnyddio yn 'wobr' am ymddygiad gweddus a chyrhaeddiad.
- Canolbwyntio mwy ar Waith Pren Irlas a llai ar Rheoli Coetiroedd.
- Mae defnyddio yr un safle ar gyfer mwy nag un gweithdy yn creu perthynas rhwng y cyfranogion a'r safle.
- Mae angen paratoi'r cyfranogion ar gyfer gweithio yn y Gweithdy Cynhyrchu Gwaith Pren, gan ei fod mewn awyrgylch mwy 'traddodiadol', yn cyferbynnu â'r awyrgylch mwy ymlaciol yn y safleoedd coedwig. Mae'n rhaid sicrháu bod digon i'w wneud gan y cyfranogion er mwyn dal eu sylw a'u cadw'n brysur, bydd hyn yn lleihau cyfleoedd i darfu ar eraill. Dylid ystyried mynd am daith gerdded yn y prynhawn. Gall eu rhannu i unedau llai er mwyn canolbwyntio ar dasgau ar wahân i leihau aflonyddwch hefyd.
- Rhaid i'r Swyddogion Prosiect bwysleisio pwysigrwydd dychwelyd y ffurflenni hunanasesiad wedi eu cwblháu.

c) Cynllun Coed Call

(Ar gyfer bobl ifanc 14 – 16 mlwydd oed sydd wedi cael, neu mewn perygl o gael, eu gwahardd o'r ysgol)

Yn dilyn y sesiynau hyfforddi Coed Call, dechreuwyd prosiectau Coed Call yng Ngheredigion, Sir Gâr a Sir Gaerfyrddin yn ystod Mis Medi.
Bydd manylion o'r prosiectau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad chwarter blwyddyn nesaf.

3. Problemau i'w hystyried perth. Targedau Cronfa Loteri Fawr:

a) Targed y nifer o bobl ifanc

Mae Swyddogion Prosiect Tir Coed yn ymwybodol o'r ffaith bod y nifer o bobl ifanc sydd yn ymwneud â phrosiect WICKED yn llai na'r gofyn (600 dros 3 mlynedd). Y prif reswm dros hyn yw bod llai o Ofalwyr Ifanc yn mynychu gweithgareddau'r cynllun Mês na'r disgwyl.
Wrth gynllunio, bu'r Swyddog Prosiect yn trafod efo Mudiadau'r Gofalwyr Ifanc yn y 4 Sir brosiect, a chafwyd fanylion ar y nifer eu haelodaeth. Wedyn, amcangyfrifwyd y byddai 12 Gofalwr Ifan yn mynychu pob gweithgaredd.
Beth bynnag, nid oedd y Swyddogion Prosiect yn ymwybodol bod llawer o aelodau'r mudiadau dim ond eisiau defnyddio'r wasanaeth mentora a gynigir ganddynt, yn hytrach na chymeryd rhan mewn gweithgareddau.
Felly, y nifer o Ofalwyr Ifanc sydd yn mynychu gweithgareddau'r Cynllun Mês yw 6 – 8, tua hanner nifer yr amcangyfrifiad.

b) Cerrig Milltir

O ganlyniad i'r uchod, mae'n anodd iawn cyrraedd y garreg filltir a nodir ar dablau deilliannau WICKED –

Er enghraifft, os oes grŵp o 6 person ifanc yn mynychu gweithgaredd 3 diwrnod, ac nad ydyw un ohonynt yn mynychu am 1 diwrnod, ni fedrwn gyrraedd ein carreg filltir.

Trafodwyd y diffygion hyn gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed. Hoffai'r Swyddogion Prosiect pe bai canran y Garreg Filltir yn cael ei diwygio i:
*"**70%** o gyfranogwyr y weithgaredd/rhaglen yn bresennol am o leiaf **70%** o'r amser."*

c) Mesur Nodau

Nid yw'r Swyddogion Prosiect yn teimlo eu bod wedi darganfod y dull orau o fesur y Nôd:
"O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect."

Yn bresennol mae'r bobl ifanc yn cwblháu ffurflenni hunanasesiad, ar y ffurflen hon gofynnir iddynt sgorio eu hapusrwydd ar ddechrau'r weithgaredd ar raddfa o 1 i 5; ailadroddir yr ymarferiad hyn ar ddiwedd yr un weithgaredd.
Yn aml, mae'r bobl ifanc yn llawn brwdfrydedd i ddechrau'r weithgaredd ac yn rhoddi'r sgôr uchaf o 5 i'w hunain ar y cychwyn; mae'n amlwg nad ydy hyn yn galluogi unrhyw gynnydd yn eu sgôr "hapusrwydd" ar ddiwedd y weithgaredd.

Mae'r Swyddogion Prosiect yn ceisio cyngor pellach ar sut i fesur y nôd hwn mewn modd mwy effeithiol.

Diwedd yr adroddiad.